WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Parodrwydd ar gyfer Wylfa Newydd a'i Heffaith ar Gapasiti Corfforaethol – **Cyngor Sir Ynys Môn**

Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 497A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon yn rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os bydd cais yn dod i law am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae'r cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Huw Lloyd Jones, Andy Bruce, Gwilym Bury a Carole Smith, dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Gwnaeth y Cyngor gynnydd da fel awdurdod lletya ar gyfer prosiect Wylfa Newydd heb gyfaddawdu ar ei allu i gyflawni blaenoriaethau eraill. Serch hynny, mae yna gyfnod heriol ar droed ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd yn hanfodol i bartneriaid yn y sector cyhoeddus gydweithio'n agosach. 4

Cynigion ar gyfer Gwella 6

Adroddiad manwl

Mae'r gwaith cynllunio ar gyfer Wylfa Newydd wedi cyrraedd cam allweddol, ond mae angen gwneud llawer o benderfyniadau eto cyn cadarnhau'r datblygiad 7

Mae Cytundebau Perfformiad Cynllunio gyda Horizon wedi galluogi'r Cyngor i gael mynediad at gapasiti arbenigol i ymdrin â rôl y Cyngor fel Awdurdod Cynllunio lletya, a phrin yw'r effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei wasanaethau eraill hyd yn hyn 9

Mae'r Cyngor yn deall y risgiau sy'n gysylltiedig â datblygu Wylfa, ond tan yn ddiweddar roedd rhywfaint o wybodaeth allweddol, sy'n angenrheidiol er mwyn adnabod camau gweithredu i liniaru'r risgiau hynny, ar goll 10

Mae yna le i gydlynu gwaith y sector cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru'r risgiau a sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl y mae prosiect Wylfa Newydd yn eu cynnig 11

# Adroddiad cryno

## Gwnaeth y Cyngor gynnydd da fel awdurdod lletya ar gyfer prosiect Wylfa Newydd heb gyfaddawdu ar ei allu i gyflawni blaenoriaethau eraill. Serch hynny, mae yna gyfnod heriol ar droed ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd yn hanfodol i bartneriaid yn y sector cyhoeddus gydweithio'n agosach

1 Wylfa Newydd yw un o'r prosiectau seilwaith mwyaf cymhleth a chostus i gael eu hystyried yng Nghymru. Amcangyfrifir y bydd y gost yn £10 biliwn, a bwriad Pŵer Niwclear Horizon (Horizon), cwmni cyfyngedig preifat ac is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Hitachi Ltd, yw adeiladu gorsaf bŵer niwclear garbon isel a seilwaith cysylltiedig arall ar arfordir gogleddol Ynys Môn. Mae'r tir yn agos i Orsaf Bŵer Wylfa bresennol Magnox, a adeiladwyd yn y 1960au, ac sydd nawr yn cael ei datgomisiynu. Y nod yw cael Wylfa Newydd i ddechrau cynhyrchu trydan yng nghanol y 2020au.

2 Mae Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) wedi bod yn rhagweithiol wrth sefydlu ei 'Raglen Ynys Ynni Môn', y mae'n ei disgrifio fel 'ymdrech ar y cyd rhwng sawl rhanddeiliad o fewn y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector, sy'n gweithio mewn partneriaeth gan sicrhau bod Ynys Môn ar flaen ymchwil a datblygiad, cynhyrchu a gwasanaethu ynni carbon isel, gan gyflwyno buddion economaidd a allai fod yn rhai aruthrol'. Y prosiect Wylfa Newydd yw'r prosiect mwyaf o fewn y Rhaglen Ynys Ynni, a hynny o bell ffordd.

3 Y Cyngor yw'r awdurdod lletya ar gyfer proses gydsynio prosiect Wylfa Newydd, a bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU dros Strategaeth Busnes, Ynni a Diwydiant. Fel y cyfryw, mae'r Cyngor yn un o sawl ymgynghorai o fewn y fframwaith ymgynghori statudol. Mae prosiect Wylfa Newydd yn cyflwyno risgiau uniongyrchol ac anuniongyrchol. Mae'r risgiau uniongyrchol yn cynnwys effaith y prosiect ar ddiwylliant ac amgylchedd Ynys Môn, er enghraifft. Mae'r risgiau anuniongyrchol yn cynnwys cynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor, yn enwedig yn ystod y cam adeiladu, o ganlyniad i gynnydd sylweddol, dros dro, yn y boblogaeth. Mae'r gwaith sy'n angenrheidiol er mwyn adnabod risgiau o'r fath, a'u meintioli, ac i sicrhau adnoddau i liniaru eu heffaith, yn aruthrol. Bydd y gwaith hwn yn cyflwyno heriau sylweddol i'r Cyngor ar amrywiol adegau yn ystod oes y prosiect.

4 Mae'r galwadau ar y Cyngor yn debygol o gynyddu, felly, ond bydd y galwadau hefyd yn newid wrth i brosiect Wylfa Newydd fynd rhagddo. Bydd natur y galwadau hyn, a hynny yn y tymor union a'r tymor hirach, yn gofyn i'r Cyngor fod yn gydnerth, i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion beunyddiol yn ogystal â lletya datblygiad llwyddiannus Wylfa Newydd.

5 O ystyried hyn, rhaid i'r Cyngor felly barhau i:

- sicrhau bod ganddo'r capasiti a'r sgiliau angenrheidiol i weithio gyda Horizon a rhanddeiliaid eraill i sicrhau'r buddion gorau posibl i'r gymuned sy'n codi wrth ddatblygu a gweithredu Wylfa Newydd;
- adnabod y risgiau sy'n gysylltiedig â'r datblygiad, o ran ei effeithiau ar y gymuned a'i effeithiau tebygol ar y galw am wasanaethau'r Cyngor, a lliniaru'r risgiau hynny; a
- ddarparu gwasanaethau ar gyfer poblogaeth Ynys Môn yn unol â'i amcanion strategol, ac mewn amgylchedd ariannol sy'n mynd yn fwy a mwy heriol.

6 Trafododd swyddogion Llywodraeth Cymru gyda'r Cyngor y potensial i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth ychwanegol, o ystyried maint a chymhlethdod prosiect Wylfa Newydd. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Cyngor a Llywodraeth Cymru, penderfynom gynnal adolygiad fyddai'n canolbwyntio ar gapasiti'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol, ar yr un pryd â rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd a'u lliniaru.

7 Ffocws ein hadolygiad oedd capasiti'r Cyngor a'i barodrwydd i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiect Wylfa Newydd yng nghyd-destun y Rhaglen Ynys Ynni ac amcanion strategol ehangach y Cyngor. Buom yn ystyried i ba raddau y mae gan y Cyngor y cynlluniau a'r capasiti i wneud y gorau o'r cyfleoedd ac i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Wylfa Newydd, heb gyfaddawdu ar ei allu i gyflawni pob un o'i flaenoriaethau allweddol a'i wasanaethau.

8 Ein canfyddiad oedd bod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da fel awdurdod lletya ar gyfer prosiect Wylfa Newydd, heb gyfaddawdu ar ei allu i gyflawni blaenoriaethau eraill. Serch hynny, mae yna gyfnod heriol ar droed ac, yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd yn hanfodol i bartneriaid yn y sector cyhoeddus gydweithio'n agosach.

9 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r gwaith cynllunio ar gyfer Wylfa Newydd wedi cyrraedd cam allweddol, ond mae angen gwneud llawer o benderfyniadau eto cyn cadarnhau'r datblygiad;
- mae Cytundebau Perfformiad Cynllunio gyda Horizon wedi galluogi'r Cyngor i gael mynediad at gapasiti arbenigol i ymdrin â rôl y Cyngor fel Awdurdod Cynllunio lletya, a phrin yw'r effaith ar allu'r Cyngor i gyflawni ei wasanaethau eraill hyd yn hyn;
- mae'r Cyngor yn deall y risgiau sy'n gysylltiedig â datblygu Wylfa Newydd, ond tan yn ddiweddar roedd rhywfaint o wybodaeth allweddol, sy'n angenrheidiol er mwyn adnabod camau gweithredu i liniaru'r risgiau hynny, ar goll; ac
- mae yna le i gydlynu gwaith y sector cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru'r risgiau a sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl y mae prosiect Wylfa Newydd yn eu cynnig.

# Cynigion ar gyfer gwella

Enghraifft 1: cynigion ar gyfer gwella

| Cynigion ar yfer gwella | |
|---|---|
| **Bydd cynnydd yn y boblogaeth o ganlyniad i Wylfa Newydd yn golygu bod yna risg y bydd y galw am wasanaethau'r Cyngor yn fwy na chapasiti'r Cyngor** | |
| C1 | Dylai'r Cyngor barhau i fonitro ei gapasiti wrth i brosiect Wylfa Newydd fynd yn ei flaen, gan ddefnyddio'n llawn yr adnoddau sydd ar gael trwy'r broses cydsynio i ddatblygu i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg. |
| **Trwy fethu â sicrhau cydweithrediad effeithiol ledled y sector cyhoeddus, mae yna risg y gallai costau dynnu ar y pwrs cyhoeddus yn y dyfodol** | |
| C2 | Dylai'r Cyngor barhau i weithio gydag ymgynghorai eraill yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i:<br>• gydlynu'r gwaith o asesu risgiau sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd; a<br>• rhannu gwybodaeth i ganiatáu dealltwriaeth gyffredin o'r risgiau a sut y mae modd eu lliniaru. |
| **Trwy fethu â datblygu'r gadwyn gyflenwi a rhoi sylw i brinder llafur posibl cyn i'r gwaith o adeiladu Wylfa Newydd ddechrau, mae yna berygl na fydd rhanbarth Gogledd Cymru'n manteisio i'r eithaf ar fuddion economaidd posibl y prosiect** | |
| C3 | Dylai'r Cyngor weithio gyda'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus i adnabod cyfrifoldebau arweiniol dros ddatblygu'r gadwyn gyflenwi a chynyddu'r cyfleoedd hyfforddiant sydd ar gael ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. |

# Adroddiad manwl

## Mae’r gwaith cynllunio ar gyfer Wylfa Newydd wedi cyrraedd cam allweddol, ond mae angen gwneud llawer o benderfyniadau eto cyn cadarnhau’r datblygiad

10 Rhaid i ddatblygwr Wylfa Newydd, sef Horizon, gwblhau proses statudol hir a chymhleth er mwyn cael y trwyddedau a’r caniatâd angenrheidiol, cyn iddo fedru dechrau adeiladu’r orsaf bŵer. Mae cael caniatâd cynllunio yn elfen allweddol o’r broses statudol hon. Mae Wylfa Newydd yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ac mewn achosion o’r fath, Ysgrifennydd Gwladol Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig fydd y penderfynu a ddylid rhoi caniatâd cynllunio ai peidio.

11 Mae Deddf Cynllunio 2008 yn nodi proses mewn chwe cham ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio Prosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol. Roedd y cyntaf o’r camau hyn, sef y Cam Cyn Ymgeisio, yn cynnwys tair rownd o ymgynghori cyhoeddus, ond mae mwyafrif y broses statudol i ddod. Yn ystod y camau sy’n weddill, bydd yr Arolygiaeth Gynllunio[1] yn ystyried cais Horizon ochr yn ochr â sylwadau gan y rheiny sydd â diddordeb, cyn dod i benderfyniad a chynnig argymhellion i’r Ysgrifennydd Gwladol.

12 Fel yr awdurdod lletya, mae’r Cyngor yn un o sawl ymgynghorai statudol. Cefnogodd y Cyngor y prosiect yn gyson, ond nid ‘ar unrhyw gost’; ei nod yw sicrhau’r buddion gorau posibl i’r ynys o ran swyddi cynaliadwy o ansawdd uchel, gan gadw unrhyw effeithiau niweidiol mor isel â phosibl ar yr un pryd, yn enwedig yn ystod y cam adeiladu. Yn bennaf, rôl y Cyngor yn y cam hwn yn y prosiect, felly, yw gweithio gyda Horizon a dewis o bartneriaid a rhanddeiliaid eraill i:

- wireddu'r buddion economaidd a buddion eraill y gallai prosiect Wylfa Newydd eu cyflwyno i Ynys Môn a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru; a
- nodi unrhyw effeithiau niweidiol y gallai’r prosiect eu cyflwyno, a’u lliniaru.

13 Ar adeg ein gwaith maes, bwriad Horizon oedd ymgeisio i’r Arolygiaeth Gynllunio am Orchymyn Caniatâd Datblygu erbyn diwedd mis Mawrth 2018. Mae’r cais wedi’i oedi ers hynny. Fodd bynnag, pan fydd y cais wedi cael ei gyflwyno bydd y Cam Cyn Ymgeisio yn dod i ben. Mae’r pum cam sy’n weddill ac yn arwain i fyny at benderfyniad y Gweinidog yn debygol o gymryd dros flwyddyn i’w cwblhau. Fel awdurdod lletya, mae gan y Cyngor rôl allweddol yn y broses hon, ochr yn ochr ag eraill yn y sector cyhoeddus sy’n medru cyflwyno sylwadau i’r Arolygiaeth Gynllunio.

14 Cyn iddo gyflwyno’i gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu i’r Arolygiaeth Gynllunio, bydd Horizon yn cytuno ar Ddatganiadau Tir Cyffredin gyda’r Cyngor a

[1] Mae’r Arolygiaeth Gynllunio yn asiantaeth weithredol, a noddir gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru.

rhanddeiliaid allweddol eraill yn y sector cyhoeddus. Bydd y Datganiadau Tir Cyffredin hyn yn gosod y meysydd hynny lle mae'r datblygwr wedi cytuno gyda'r rhanddeiliaid sut y bydd yn lliniaru'r amrediad o risgiau a nodwyd. Unwaith fydd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu wedi'i gyflwyno, bydd y Cyngor, fel awdurdod lletya, yn cyflwyno Adroddiad ar yr Effaith Leol i'r Arolygiaeth Gynllunio i'w ystyried yn ystod yr Archwiliad. Bydd yr adroddiad hwn yn crynhoi'r hyn a gytunwyd gyda Horizon a'r meysydd lle maent yn anghytuno. Bydd yr Archwiliad yn ystyried y materion hynny lle maent yn anghytuno ac efallai y bydd yn cyfeirio at faterion o'r fath yn ei argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol.

15 Yn ychwanegol at ymgeisio'n llwyddiannus am Orchymyn Caniatâd Datblygu, rhaid i Horizon hefyd gael sawl caniatâd a thrwydded arall cyn y gall y gwaith o adeiladu Wylfa Newydd gychwyn. Er enghraifft, cyflwynodd Horizon ei gais am Drwydded Safle Niwclear ar gyfer y datblygiad arfaethedig i'r Swyddfa dros Reoli Niwclear yng ngwanwyn 2017, gyda dyddiad cadarnhau targed yn hwyr yn 2018.

16 Rhaid i Horizon hefyd oresgyn rhwystrau ariannol sylweddol cyn y gall wneud y penderfyniad terfynol i fuddsoddi a dechrau datblygu'r orsaf bŵer. Yn benodol, rhaid iddo drafod gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig i gytuno ar 'bris streic[2]' sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr am y pŵer y bydd Wylfa Newydd yn ei gynhyrchu. Rhaid i Horizon hefyd ddod o hyd i fuddsoddwyr i ariannu'r prosiect a thalu am y gwaith adeiladu.

17 Mae trosglwyddiad pŵer o Wylfa Newydd i'r prif dir a thu hwnt (Cysylltiad Gogledd Cymru) yn gyfrifoldeb ar y Grid Cenedlaethol. Mae'r prosiect hwn hefyd wedi ei bennu fel un sy'n Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol ac felly bydd yn destun cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar wahân, y gobeithir ei gyflwyno i'r Arolygiaeth Gynllunio yn ystod ail chwarter 2018. Er bod y ceisiadau am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar gyfer Wylfa Newydd a Chysylltiad Gogledd Cymru yn rhai ar wahân, mae'n amlwg na all y naill brosiect fynd rhagddo heb y llall. Mae canlyniad Gorchymyn Caniatâd Datblygu Cysylltiad Gogledd Cymru felly'n cynrychioli proses benderfynu gymhleth bellach y mae'n rhaid ei chwblhau'n llwyddiannus cyn y gellir cadarnhau datblygiad Wylfa Newydd.

[2] Y 'pris streic' yw'r swm y bydd Llywodraeth y DU yn ei gytuno gyda Horizon y bydd yn ei dalu fesul uned o drydan a gynhyrchir gan Wylfa Newydd

## Mae Cytundebau Perfformiad Cynllunio â Horizon wedi galluogi'r Cyngor i gael mynediad at gapasiti arbenigol i ymdrin â rôl y Cyngor fel Awdurdod Cynllunio lletya, a phrin yw'r effaith ar ddarpariaeth gwasanaethau eraill y Cyngor hyd yn hyn

18 Roedd y broses o ymateb i dair rownd o ymgynghori statudol yn faich sylweddol ar y Cyngor, y tu hwnt i'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl Ynys Môn. Ers hynny, mae'r gwaith o adnabod risgiau sy'n gysylltiedig ag Wylfa Newydd, a'u dadansoddi, wedi gofyn am ddadansoddiad manwl a thrafodaethau cymhleth er mwyn ceisio dod i gytundeb gyda Horizon ynghylch sut y gellid lliniaru risgiau o'r fath.

19 Fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi llofnodi Cytundebau Perfformiad Cynllunio gyda Horizon. Mae'r cytundebau hyn, sy'n werth tua £2 miliwn y flwyddyn, wedi galluogi i'r Cyngor gynyddu ei gapasiti a'i allu trwy benodi ymgynghorwyr a chynghorwyr â'r cymwysterau a'r profiad priodol i ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith ychwanegol a gynhyrchir gan brosiect Wylfa Newydd. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth strategol a chyfreithiol gyda phrofiad sylweddol o brosiectau tebyg mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Yn ddiweddar, mae'r Cyngor hefyd wedi penodi swyddog i gefnogi'r gwrandawiad sydd ar droed ar gyfer y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu.

20 Cydnabyddir ar draws adrannau'r Cyngor fod prosiect Wylfa Newydd yn risg, ond hyd yn hyn tîm Rhaglen Ynys Ynni sydd wedi ysgwyddo mwyafrif y llwyth gwaith, gyda chefnogaeth gan y capasiti ychwanegol sydd ar gael trwy'r Cytundebau Perfformiad Cynllunio, ac uwch reolwyr corfforaethol.

21 Er bod llwyth gwaith aelodau etholedig, uwch reolwyr a phenaethiaid gwasanaethau'n drwm, gwelsom eu bod yn ymdopi'n dda, yn gyffredinol. Lle bo'r angen, mae gwasanaethau fel Tai, y gallai cam adeiladu Wylfa Newydd effeithio'n uniongyrchol arnynt, wedi cydnabod yr her ac wedi ailstrwythuro'n fewnol er mwyn darparu capasiti strategol ychwanegol. Adeg ein gwaith maes yn hwyr yn 2017, wynebai'r Cyngor broblem capasiti byrdymor wrth ddatblygu ei asesiadau effaith yn gynlluniau wedi'u costio cyn cyflwyno'r cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu i'r Arolygiaeth Gynllunio. Serch hynny, mae'r Cyngor yn rhoi sylw i'r broblem hon o ran capasiti, trwy sicrhau arbenigedd mewn meysydd pwnc penodol, i fod yn gyfeillion beirniadol ac i adnabod bylchau mewn tystiolaeth a dadansoddiad a'u llenwi.

22 Mae gan y Cyngor brosesau rheoli perfformiad a risg cadarn ar waith ac, yn gyffredinol, mae'n hunanymwybodol. Mae'n cydnabod bod yna wasanaethau lle mae'r perfformiad yn wannach nag y dylai fod, ond ni ellir priodoli'r gwendidau i

lwyth gwaith Wylfa. Mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd da gyda nifer o flaenoriaethau strategol allweddol megis moderneiddio ysgolion.

## Mae'r Cyngor yn deall y risgiau sy'n gysylltiedig â datblygu Wylfa, ond, tan yn ddiweddar, roedd rhywfaint o wybodaeth allweddol, sy'n angenrheidiol er mwyn adnabod camau gweithredu i liniaru'r risgiau hynny, ar goll

23 O ganlyniad i rôl y Cyngor fel awdurdod lletya, roedd angen iddo ystyried yn fanwl y risgiau sy'n gysylltiedig â datblygiad arfaethedig Wylfa Newydd. Yn gyffredinol, mae gan y Cyngor ddealltwriaeth glir o'r risgiau sy'n gysylltiedig â cham adeiladu Wylfa Newydd. Mae gan y Cyngor nifer o ffrydiau gwaith ar waith i ystyried, ar enghraifft, yr effeithiau tebygol ar:

- stoc tai'r ynys;
- y diwydiant twristiaeth;
- y Gymraeg; a'r
- farchnad lafur.

24 Yn ystod gwanwyn 2017, cynhaliodd Horizon drydedd rownd o ymgynghoriadau cyn ymgeisio (PAC3). Ar y cam hwn, roedd cynigion y datblygwr yn cynnwys newidiadau sylweddol i'r cynigion cynharach. Yn benodol, roedd y cynnig i gartrefu tua 4,000 o staff adeiladu (gan gynyddu i 8,500 ar adegau brig yn ystod y gwaith adeiladu) mewn llety dros dro ger y safle adeiladu, yn cyflwyno risgiau nad oedd y Cyngor wedi eu hystyried yn flaenorol.

25 Er mwyn asesu'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r cynigion newydd yn llwyr, ac i fedru datblygu cynlluniau wedi'u costio i liniaru'r risgiau hynny, roedd ar y Cyngor angen gwybodaeth fanwl. Fodd bynnag, mewn ymateb i PAC3, dywedodd y Cyngor nad oedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn ddigonol i alluogi'r Cyngor i gwblhau ei asesiadau effaith, ac i'w trawsnewid yn gynlluniau wedi'u costio. Mae cynlluniau o'r fath yn sylfaen i'r trafodaethau gyda Horizon ynghylch sut y gallai'r cwmni gyfrannu at y broses o liniaru risg. Adlewyrchir meysydd lle maent yn cytuno yn Natganiad Tir Cyffredin y Cyngor gyda Horizon, a bydd yr Arolygiaeth Gynllunio'n ystyried meysydd lle maent yn anghytuno pan fydd yn ystyried cais Horizon am Orchymyn Caniatâd Datblygu.

26 Ar ddiwedd 2017, rhoddodd Horizon fwy o fanylion i'r Cyngor. Serch hynny, mae'n debygol y bydd rhai meysydd lle mae yna ansicrwydd o hyd ynghylch, er enghraifft, union nifer y gweithwyr adeiladu y mae'n debygol y bydd arno'u hangen ar bob cam yn y broses adeiladu. Gan nad oes data pendant ar gael, efallai y bydd ar y Cyngor angen modelu dewis o senarios a allai godi er mwyn llunio cynlluniau wedi'u costio.

## Mae yna le i gydlynu gwaith y sector cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru'r risgiau a sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl y mae prosiect Wylfa Newydd yn eu cynnig

27 Disgwylir y bydd gan brosiect Wylfa Newydd effaith fuddiol hirdymor ar economi Ynys Môn a rhanbarth ehangach Gogledd Cymru. Mae'n bwysig, felly, ystyried y risgiau o beidio â manteisio i'r eithaf ar fuddion o'r fath ochr yn ochr â risgiau effeithiau niweidiol posibl Wylfa Newydd. Er mwyn sicrhau'r buddion economaidd gorau posibl, yn ystod y cam adeiladu a'r cam gweithredu, mae angen buddsoddi mewn addysg a sgiliau, er enghraifft, i alluogi pobl ar draws y rhanbarth i elwa ar y swyddi sy'n cael eu creu. Mae angen cefnogi busnesau lleol, hefyd, i ddatblygu eu gallu i gystadlu'n llwyddiannus am gytundebau yn y gadwyn gyflenwi.

28 Yr ardaloedd ar yr ynys sy'n agos at Wylfa Newydd fydd yn profi effeithiau mwyaf difrifol nifer o'r risgiau a nodwyd gan y Cyngor. Ymhlith risgiau o'r fath, er enghraifft, mae'r effaith debygol ar y diwydiant twristiaeth a'r straen a osodir ar systemau trafnidiaeth lleol ac amwynderau, o ganlyniad i'r llety i weithwyr sydd wedi'i gynllunio ar safle Wylfa Newydd. Mae'r Cyngor wedi cydnabod, yn ei 'Egwyddor Agosatrwydd', y bydd yr effaith yn gostwng wrth i'r pellter o safle Wylfa gynyddu a'i fwriad yw targedu adnoddau fydd ar gael gan Horizon i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig ag Wylfa at y rhannau hynny o'r ynys sydd agosaf at y datblygiad.

29 Serch hynny, gallai effaith bosib Wylfa ar y farchnad dai, er enghraifft, ymestyn ar draws Ynys Môn, a thu hwnt i awdurdodau cyfagos. Er y gallai mwyafrif y gweithwyr adeiladu fod yn byw yn y llety dros dro ar y safle a ddarperir gan Horizon, efallai y bydd eraill yn dewis rhentu eiddo o fewn pellter teithio i Wylfa Newydd. Mae'r cynnydd yn y galw am eiddo i'w rhentu'n breifat yn debygol o gynyddu'r lefelau rhent a gallai orfodi i rai o'r tenantiaid presennol chwilio am opsiynau rhatach, gan greu pwysau o fewn y sector tai cymdeithasol, o bosib.

30 Mae rhai o'r partneriaid yn y sector cyhoeddus mewn lle gwell nag eraill i asesu amrywiol risgiau'r prosiect ac i arwain y broses o gynllunio'r ffordd orau o liniaru'r risgiau hynny. Er enghraifft, mae'r Cyngor, fel awdurdod lletya, mewn sefyllfa gref i arwain ar yr agweddau hynny megis twristiaeth, lle bydd yr effeithiau wedi'u cyfyngu'n bennaf at yr ynys. Ar y llaw arall, efallai y bydd Partneriaid mewn lle gwell i arwain datblygiad cynlluniau ac ymyriadau strategol i ymdrin ag agweddau sy'n gofyn am ymagwedd ranbarthol megis y farchnad lafur a datblygiadau yn y gadwyn gyflenwi.

31 Mae hyfforddiant pellach ar draws y rhanbarth yn angenrheidiol er mwyn sicrhau bod pobl leol yn elwa'n llwyr o'r nifer uchel o swyddi sy'n debygol o fod ar gael, yn enwedig yn ystod y cam adeiladu. Mae'n debygol y bydd y cyfleoedd am swyddi sydd ar gael yn ystod y cyfod adeiladu'n denu ymgeiswyr o bob rhan o Ogledd Cymru a thu hwnt. Er mwyn datblygu Wylfa Newydd bydd arnynt angen amrywiaeth eang o staff cynorthwyol yn ychwanegol at y rheiny sy'n gweithio'n

uniongyrchol ar ei adeiladu. Gallai'r cyfleoedd sydd ar gael yn Wylfa Newydd ddenu ymgeiswyr o sectorau eraill megis twristiaeth, lle mae'r gwaith yn dymhorol yn aml, a'r cyfraddau cyflog yn isel, gan greu prinder llafur.

32 Waeth i ba raddau y mae Horizon yn cyfrannu at liniaru'r risgiau, mae arnynt angen gwneud rhywfaint o'r gwaith angenrheidiol i sicrhau'r buddion gorau posibl ac i gadw unrhyw effeithiau niweidiol mor isel â phosibl, cyn i'r gwaith o adeiladu Wylfa Newydd ddechrau. Mae enghreifftiau o waith o'r fath yn cynnwys:

- hyfforddi busnesau lleol i wella'u sgiliau ar gyfer ymgeisio am gontractau;
- sicrhau bod digon o gyfleoedd hyfforddiant ar gael i alluogi pobl leol i fanteisio ar y cyfleoedd cyflogaeth a gynigir; ac
- adnabod achosion posibl o brinder tai, a rhoi sylw i hyn.

33 Cymerwyd rhai camau eisoes. Er enghraifft, mae Horizon wedi dechrau cefnogi datblygiad cenhedlaeth o weithwyr y dyfodol yn Wylfa Newydd trwy fuddsoddi mewn Cynllun Prentisiaeth Dechnegol yng Ngholeg Menai, y Coleg Addysg Bellach lleol, ac yn swyddfeydd Horizon tu allan i Ogledd Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried cyflwyno cynlluniau i ariannu'r gwaith o adeiladu tai cymdeithasol ychwanegol ar Ynys Môn. Serch hynny, mae yna amharodrwydd dealladwy ar ran sector cyhoeddus Cymru i fuddsoddi mewn mentrau o'r fath tra bod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch gallu Horizon i oresgyn unrhyw elfennau eraill sy'n eu rhwystro rhag adeiladu Wylfa Newydd.

34 Mae'n bwysig bod y rheini yr ymgynghorir â nhw yn y sector cyhoeddus, gan gynnwys partneriaethau allweddol y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt, yn cydlynu eu gwaith, gan rannu gwybodaeth a sicrhau eu bod yn glir ynghylch cyfrifoldebau perthnasol. Bydd sicrhau bod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cydweithio i ddarparu asesiad cynhwysfawr a chyson o'r ffordd orau o wneud y gorau o'r cyfleoedd y mae datblygiad Wylfa yn eu cynnig, a sut i ddarparu adnoddau i liniaru'r risgiau, o fudd i'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

35 Mae'n debygol y bydd anghysondebau rhwng partneriaid yn dod i'r amlwg yn ystod gwrandawiad yr Arolygiaeth Gynllunio ar gyfer y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu, gan danseilio cryfder yr achos sy'n cefnogi'r angen i Horizon liniaru'r risgiau dan sylw. Dan yr amgylchiadau hyn, gallai costau effeithiau niweidiol annymunol na chawsant eu rhagweld dynnu ar y pwrs cyhoeddus. Yn yr un modd, bydd y pwrs cyhoeddus yn gorfod talu costau cyfle unrhyw fethiant i sicrhau'r buddion arfaethedig gorau posibl sy'n codi o ddatblygiad Wylfa Newydd.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru